

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 13 RHAGFYR 2022 A GYNHALIWYD

YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.00 O'R GLOCH.

1. **Presennol** – Gwyndaf Roberts (cad), Hefina Roberts – Llanllyfni, Siân Dafydd – Talysarn, Barry Bracegirdle, Judith Humphreys, Ceri Owen, Justin Davies – Penygroes.

Ymddiheuriadau – Dylan Herbert – Penygroes, Ffion Jones - Nantlle, Dafydd Thomas – Nebo, Harry Owen, Gareth Jones, Peter Bridges – Talysarn, Christine Hughes – Llanllyfni, Cyng. Peter Thomas.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. **Datgan Buddiant** – Justin Davies yn datgan diddordeb ym mhwynt 12 Cwtfn – Yr Orsaf.

3. **Gwadd** - Croesawyd Steffan Williams, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod a gofynnwyd iddi esbonio'r sefyllfa gyda'r Clwb Ieuenctid a'r caban yr oedd y Cyngor Cymuned wedi cytuno i ariannu sesiynau ar gyfer pobl ifanc y Dyffryn. Dywedodd Steffan fod y caban wedi cyrraedd ond bod yna broblem gyda chael safle ar ei gyfer ym Mhenygroes ac felly yn gorfod ail-feddwl a'r syniad newydd yw bod y clwb yn cael ei gynnal yng nghampfa Ysgol Dyffryn Nantlle. Eglurwyd i Steffan os nad yw'r caban am gael ei ddefnyddio yna nid yw'r Cyngor Cymuned eisiau unrhyw gyfrifoldeb ohono na chostau chwaith - esboniwyd i'r cynghorwyr nad yw'r caban yn ased i'r Cyngor Cymuned. O ran y gampfa mae yna waith sylweddol angen ei gario allan yno i wneud y lle yn barod sydd yn golygu y bydd peth amser hyd nes bydd yn barod i'w ddefnyddio. Mae'r Cyngor Cymuned wedi clustnodi arian sylweddol ar gyfer ariannu sesiynau ond nid oes dim yn digwydd a dywedodd Steffan fod safle a staffio yn broblem ar hyn o bryd a bod hysbysebion swyddi wedi bod yn mynd allan a neb yn ymgeisio amdanynt. Cynigiodd Steffan efallai y buasai holi i gael defnydd o Blas Silyn am gyfnod yn syniad da er mwyn cael rhywbeth i'r bobl ifanc - roedd hyn i weld yn syniad da ac felly cynigiodd Justin Davies ac eiliwyd gan Judith Humphreys i Steffan fynd ymlaen gyda cheisio staffio a chynnal sesiynau ym Mhlas Silyn - cytunodd pawb gyda hyn. Gofynnwyd i Steffan adrodd yn nôl ar hyn. Holwyd beth fydd yn digwydd i'r caban rwan a bydd yn cael ei gynnig i gynghorau cymuned/tref eraill i weld pe baent yn hoffi ei gymryd. Diolchwyd i Steffan am ddod i'r cyfarfod.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 8 Tachwedd 2022** - cynigiodd Barry bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Ceri. Cytunodd pawb.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - roedd Dylan Herbert wedi cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol ac roedd wedi gofyn a oedd yna gais wedi dod gan gwmni lleol i Ddyffryn Nantlle i gael ymuno a'r grid - Na nid oedd cais wedi dod i law.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Cyng. Peter Thomas ymlaen llaw i'w darllen. Yn ei absenoldeb diolchwyd i Peter am ei adroddiadau cyson a'i waith yn ystod y chwe mis diwethaf a bod y gwahaniaeth i'w weld yn yr amser yma.

7. **Materion Pentrefi - Penygroes** - nid oes dim o'r gwaith a godwyd yng nghyfarfod mis diwethaf wedi ei gario allan gan Gyngor Gwynedd ac angen mynd are u holau unwaith eto gan eu bod yn faterion a oedd angen sylw brys gan eu bod yn beryglus. Unwaith eto, cyflwr y Stryd Fawr yn peri pryder gan ei bod yn beryglus a dim i'w weld yn cael ei wneud ar Ffordd Llwyndy chwaith. Palmant ger swyddfa Roberts ac Owen - sianel draen yn rhydd a beryg i rywun faglu arni. Bagiau biniau wedi eu gadael o flaen tŷ yn y Stryd Fawr a heb eu casglu - eisiau holi os oes terfyn ar faint o fagiau maent yn godi yn wythnosol, hefyd sbwriel tu allan i fflatiau Cynefin gan nad ydynt wedi eu rhoi mewn bagiau felly dim yn cael eu casglu. Safle bysiau - angen holi os yw'r camerâu yn gweithio yn dda a gweld os yw yn amser meddwl rhoi paneli newydd ar y safle bws gan fod cwynion wedi eu derbyn bod pobl yn oer ac yn gwlychu wrth aros am fws. Cwynion wedi eu derbyn unwaith eto am gerbydau yn parcio ar y palmentydd. **Talysarn** - y clerc wedi derbyn e-bost yn gofyn i ni gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â gordyfiant ar Ffordd Hyfrydle sydd yn achosi i

geir orfod gyrru ymhellach o'r wal rhag malurio eu ceir a hefyd mae sbwriel wedi casglu o dan y gordyfiant ac angen ei lanhau. **Llanllyfni** - y pant ar waelod Lôn Ddŵr yn gwaethygu ac angen ei sortio yn fuan. Hefyd roedd y clerc wedi derbyn e-bost yn ystod y mis ynglŷn â merch ifanc a oedd wedi disgyn oherwydd cyflwr truenus Ffordd Rhedyw ac wedi brifo tipyn. Roedd Nia wedi cysylltu gyda Cyng. Peter Thomas yn syth am hyn a bu iddo gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r teulu am hyn. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau addas am y materion hyn.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - nid oedd cyfarfodydd wedi eu cynnal yn ystod y mis.

9. **Taflen ariannol a chyllid** – roedd pawb wedi derbyn copi o'r daflen ymlaen llaw i'r cyfarfod i edrych drostynt ac yn derbyn eu bod yn gywir.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** – adroddwyd bod y wal ym Mynwent Macpela wedi ei thrwsio a bod y gwaith yn daclus dros ben.

11. **Ystafelloedd Newid CPD Talysarn Celts** - y gwaith trydanol bellach wedi ei orffen yn yr Ystafelloedd ac wedi derbyn y dystysgrif - esboniwyd bod yna dipyn mwy o waith nac a feddylwyd yno a bod yr anfoneb wedi ei dderbyn gan Gethin Fôn am y gwaith. Plastro o gwmpas y drysau angen ei wneud - Siôn Jones wedi adrodd wrth Nia y bydd y plastrwr yno wythnos nesaf i orffen y gwaith. Bydd y dŵr yn cael ei brofi 19 Rhagfyr ac wedyn Nia i gysylltu gyda Daniel Lewis er mwyn symud pethau ymlaen cyn gynted â phosib er mwyn i'r CPD gael y brydles gan Gyngor Gwynedd i'r adeilad.

12. **Cwtin - Yr Orsaf** - esboniodd Gwyndaf yn fyr beth drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf a hefyd yn y cyfamser bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng UnLlais a'r Orsaf i drafod grant ar gyfer y prosiect dan sylw yno. Yn dilyn o'r cyfarfod hwnnw roedd yn rhaid i'r Orsaf gael llythyr gan y Cyngor Cymuned yn cadarnhau ein bod am roi prydles i'r Orsaf ac felly yn dilyn trafodaeth penderfynwyd rhoi llythyr mewn egwyddor ymlaen er mwyn iddynt gael rhoi y cais grant i mewn gan nad oedd llawer o amser ar ôl. Mae nawr felly angen symud ymlaen gyda'r brydles. Esboniodd Siân fod Gwenllïan wedi dweud ei bod am ddrafftio prydles - ond efallai yn syniad dod i delerau nad oes costau yn disgyn ar y Cyngor Cymuned am hyn. Hefyd esboniwyd bod Siân wedi cytuno i gofrestru'r tir ar ran y Cyngor Cymuned - diolchwyd i Siân am hyn. Holodd Barry os dylid codi ffi ar yr Orsaf am ddefnydd o'r tir. Dywedodd Justin y buasai yn syniad trafod hyn a bod yr Orsaf yn ei roi lawr fel rhan o'r cais grant. Nia i gysylltu gyda Gwenllïan am hyn.

13. **Ceisiadau Cynllunio** –

C22/0909/22/LL – Fferm Taldrwst, Lôn Ddŵr, Llanllyfni – dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd ynghyd a gosod suddfan ddŵr a chyfarpar offer trin carthion preifat - **dim gwrthwynebiad**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref – ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio – Datblygiad arfaethedig yn Chwarel Penygroes, Allt Goch, Penygroes. – ar hyn o bryd gan mai ymgynghoriad yw hwn disgwyl hyd nes bydd cais cynllunio a gweld beth fydd barn y bobl leol adeg hynny cyn ymateb.

14. **Gohebiaeth** -

Llywodraeth Cymru - Cyhoeddi canllawiau pennu eithriadau terfynau cyflymder 20mya - **trafodwyd hyn a phawb o'r farn i hyn barhau.**

Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad ar y strategaeth hybu'r Gymraeg – **pasiwyd gan nodi bod Cwpan Y Byd wedi gwneud lles i'r iaith Gymraeg ac i'r wlad.**

16. **Materion Ariannol** - cytunwyd i dalu'r rhain

- Nia Jones - Ffôn a rhyngwyd - **£25.00**

- Nia Jones - Robert Dyas - **£36.94** (golau Nadolig Nebo)

- Aaron Hughes – trwsio wal Macpela - £1980+396(TAW)=**£2376.00**

- Dylan Evans - coed Nadolig Talysarn a Nantlle - **£70.00**

- Gethin Fôn Trydanwr - **£4754.71**

Unrhyw fater arall - Hefina yn diolch am y golau Nadolig yn Llanllyfni a bod lot wedi eu brolio. Barry yn gofyn oes modd cael prisiau gan gwmnïau eraill am y paneli ar y safle bws?

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.